# Cenn@d

EBRILL 30 2025 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD A SEREN CYMRU* RHIF 218


## Ffransis



Bore Llun y Pasg clywais am farwolaeth y Pab Ffransis. Roedd ffrindiau o Langollen, fel llawer o bobl eraill, wedi mynd i sgwâr Sant Pedr dros y Pasg i dderbyn, gyda'r ddinas a'r byd, ei fendith 'Urbi et Orbi'.

Roedd Ffransis yn barod i ddweud yr hyn nad oedd pobl eisiau ei glywed, fel herio llywodraethau ar argyfwng dyledion y gwledydd tlawd. Ond roedd pobl yn barod i wrando arno. Yr oedd ganddo ddull mor gyfeillgar, a dawn brin i ddod â phobl ynghyd. Gwnaeth i bobl deimlo'n gyfforddus yn ei gwmni a chartrefol yn yr eglwys. Roedd yn berson gostyngedig, gan ymwrthod â phalas apostolaidd traddodiadol y Pab a dewis byw, fel eraill, mewn gwesty yn y Fatican. Mewn gwirionedd, ni chollodd erioed ei allu i fod ymhlith pobl gyffredin a thlawd ei fagwrfa, boed hynny'n cusanu traed gwrthryfelwyr yn Ne Swdan, golchi traed carcharor, neu ei alwad ffôn nosweithiol i'r Eglwys Gatholig yn Gasa (yr unig eglwys yn Gasa bellach, a rhan ohoni wedi ei dinistrio), a hynny hyd yn oed ar Sul y Pasg. A phob amser, roedd yn dymuno, yn gweddïo ac yn dyheu am heddwch.

Yr oedd yn arweinydd doeth a chadarn ei wrthwynebiad i ryfel a thrais sydd yn digwydd ar sawl ffrynt erbyn hyn. Yr un oedd ei gariad a'i ofal o'r cread. Ym mis Mai ddeng mlynedd yn ôl ysgrifennodd ei ail gylchlythyr y Pab, *Laudato Si*, a'r is-deitl 'gofal am ein cartref cyffredin'. Ynddo mae'n beirniadu prynwriaeth a datblygiadau economaidd anghyfrifol, yn galaru am lygredd amgylcheddol a chynhesu byd-eang, ac yn galw ar holl wledydd a phobl y byd i gymryd 'camau byd-eang cyflym ac unedig'.



I mi, yr oedd Ffransis yn ddyn brwdfrydig, yn barod i sefyll dros werthoedd y Deyrnas mewn eglwys â thueddiad i fod yn fewnblyg ac eglwysig mewn ffordd sy'n ei gwneud yn anodd siarad yn broffwydol. Roedd Ffransis yn angerddol dros gyfleu mor ganolog yw'r gwerthoedd sy'n ein huno yn un yng Nghrist Iesu. Efallai fod ei alwad fel offeiriad Jeswitaidd yn canolbwyntio – fel y mae'r Jesiwitiaid – ar gael perthynas fyw gydag Iesu, gan ddirnad y dylai'r Eglwys ildio i werthoedd Teyrnas Dduw. Dyma, wedi'r cyfan, oedd y flaenoriaeth gyntaf i Iesu yn ei Bregeth ar y Mynydd ac ar hyd ei weinidogaeth a'i aberth sy'n rhoi bywyd i'n byd.

Ym mis Mehefin bydd y cyfamod rhwng y pum eglwys a gytunodd 'nôl yn 1975 i weithio tuag at weledigaeth o undod organig yn cael ei nodi gyda gwasanaeth yn yr eglwys Norwyaidd ym Mae Caerdydd. Mae'r broses yn parhau, ond mae'r diffiniadau eglwysig o *episcope* – esgob – yn atal y perl posibl hwn o wobr fawr i'r eglwys a'r byd rhag cael ei wireddu.

Efallai y symudir y *logjam* yma rhag undod drwy fabwysiadu agwedd fwy bersonol tuag at faterion eciwmenaidd, ac mae Ffransis yn esiampl dda o hynny. Pobl oedd yn dod yn gyntaf iddo, o flaen egwyddorion a thraddodiadau caeth yr Eglwys. Bugail oedd Ffransis, nid pennaeth sefydliad crefyddol mwya'r byd. Doedd ganddo fawr o obaith o newid yr eglwys (roedd ganddo ddigon o elynion) ond bu'n bugeilio eneidiau a chalonnau i gyfeiriad cariad Duw. Yr oedd Ffransis yn bwnc trafod ar Radio 4 fore Sul y Pasg, ac un cyfrannwr yn ei ystyried yn *maverick* heriol oedd yn awyddus i gael ei ffordd ei hun. Ond dyna oedd galwad Ffransis, ac mae'r byd a'r eglwys wedi colli llais gwahanol ac arweinydd mwy angenrheidiol nag erioed.

*Andrew Sully*
*(Gyda diolch i Gristnogaeth21)*


Gŵyl Llanw'n dod i oed yn Llangrannog
**Tudalen 2**

Tafod Arian – Lleuwen Steffan
**Tudalen 4**

Dyddiau Donald Trump yn gwenwyno'r byd cyfan
**Tudalen 8**

# Gŵyl Llanw'n dod i oed yn Llangrannog



Cynulleidfa nos Lun yn gwrando ar Dr Owain Edwards

Ar y dydd Llun wedi'r Pasg fe ddaeth y nifer mwyaf erioed o bobl at ei gilydd i ŵyl Llanw yng ngwersyll yr Urdd, Llangrannog. Roedd yr ŵyl hefyd yn dathlu dod i oed ers ei sefydlu, 18 mlynedd yn ôl.

Yn ystod pedwar diwrnod yr ŵyl hon sy'n dathlu'r atgyfodiad drwy gyfrwng y Gymraeg, fe fu yn agos at 500 o bobl yn rhan ohoni. Mae'r ŵyl wedi datblygu lawer iawn ers ei dechrau yn 2008 a'i chynnal yng ngwersyll Llangrannog, lle daeth 58 o bobl ynghyd. Bu mewn amryw o leoliadau dros y blynyddoedd, gan gynnwys Dinbych-y-pysgod, Cricieth ac Aberystwyth, ac yn rhithiol o Gaernarfon yn ystod y pandemig. Bu'n gyfrwng dros y blynyddoedd i ddod â Christnogion Cymraeg a'u cefnogwyr at ei gilydd i rwydweithio a chefnogi ac annog ei gilydd. Bu'n fodd hefyd i arddangos yr egni a'r ffresni sydd ar gael yn yr eglwys Gymraeg i bawb sydd â llygaid i weld a chalon i glywed.

Thema'r ŵyl eleni oedd 'Iesu'r Proffwyd, yr Offeiriad a'r Brenin'. Rhannodd y prif siaradwr Jonathan Thomas, Rhydaman, am wahanol swyddau Iesu yn ystod sesiynau'r bore, gan sylwi ar lawnder a hyfrydwch yr Arglwydd ar ein cyfer bob amser. Cafwyd oedfaon hwyliog a dwys gyda'r nos hefyd o dan arweiniad Owain Edwards, y Bala; Rachel Radbourne, Llangefni; Criw'r Ffynnon, Llandysul; a Jos Edwards, y Blaenau.

Roedd darpariaeth lawn ar gael ar gyfer gweithgareddau i blant ac ieunctid o bob oed a phob gallu, gyda chefnogaeth arbennig i deuluoedd a phlant ag anghenion dysgu ychwanegol. Rhoddodd y seminarau gyfle i archwilio agweddau'r thema yn llawnach ar gyfer ein gweinidogaeth a'n cenhadaeth yng Nghymru heddiw. Agwedd arbennig ar y gweithgareddau oedd y lle amlwg a roddwyd i bobl ifanc arwain a chyflwyno a sôn am eu dyheadau. Roedd nifer o fudiadau Cristnogol yn arddangos yno ac yn rhannu am eu gwaith. Hefyd, roedd criw Ffald y Brenin ar gael i weddïo gyda nhw, ac yn gweddïo drwy a thros y gweithgareddau i gyd. Roedd y sgyrsiau a'r dal i fyny a




Grŵp Mawl Caersalem Caernarfon yn arwain ar y nos Fawrth




Emrys a Peter yn paratoi at yr ŵyl

chyfarfod ffrindiau newydd yn galondid. Roedd yr addoliad a'r gweddïo yn felys, ac roedd y rhannu o'r Gair yn berthnasol eto ac yn llawn calondid i bawb a drodd yn ôl i'w cartrefi eu hunain ledled Cymru ac ymhellach wedi'r ŵyl.

Rhwng pob dim, fe gafwyd ymdrech wirfoddol arwrol eto eleni gan dîm ymroddedig o ymddiriedolwyr a chefnogwyr i wneud yr ŵyl yn un llawn llawenydd a gorfoledd y Pasg. Dymunwn bopeth gorau i'r trefnwyr wrth iddyn nhw hyrwyddo datblygiad a chenhadaeth yr ŵyl dros y blynyddoedd nesaf.

Gobeithir cynnwys rhai argraffiadau a phytiau o'r ŵyl yn *Cenn@d* yn ystod yr wythnosau nesaf.

*HP-D* (gol.)




Jonathan Thomas fu'n arwain prif sesiynau'r bore ar thema Iesu'r proffwyd, yr offeiriad a'r brenin



Rachel Radbourne, Goleudy, Llangefni, fu'n pregethu ar nos Fercher yr ŵyl

# Dathlu'r Pasg ym Mancyfelin





Mae Capel Bancyfelin, sir Gâr, yn rhan o ofalaeth bro sy'n cynnwys pum eglwys dan weinidogaeth y Parchg Beti-Wyn James. Dyma'r eglwys leiaf o ran nifer yn yr ofalaeth, ond maent yn deulu clòs a ffyddlon, ac yn hynod weithgar yn y gymuned.

Hen arfer erbyn hyn yw cynnal gorymdaith y Pasg drwy'r pentref bob pnawn Sul y Pasg, gan oedi i ganu emynau – a manteisio ar bob cyfle i dystiolaethu y tu allan i furiau'r adeilad – ag oedfa, paned a byns y grog i ddilyn yn y capel.

Eleni, drwy weledigaeth un o'r aelodau, Nia Ward, cynhaliwyd Gŵyl Flodau yn y capel bnawn Sadwrn y Pasg. Bu Nia a'i chynorthwywyr yn paratoi ers rhai dyddiau, ac roedd y capel yn edrych yn rhyfeddol ar gyfer croesawu'r gymuned i mewn. Thema'r pnawn oedd 'Stori'r Pasg drwy flodau', a chyfarchwyd pawb wrth iddynt gamu dros drothwy drws y capel â changhennau palmwydd ar lawr yn dynodi dechrau wythos y Pasg gydag ymdaith fuddugoliaethus Iesu i mewn i ddinas Jerwsalem.

Wrth inni gamu i mewn i'r capel, cawsom ein harwain ar daith yn olrhain rhai o ddigwyddiadau wythnos olaf bywyd a gweinidogaeth ddaearol yr Arglwydd Iesu: glanhau'r deml, golchi traed y disgyblion, y Swper Olaf, y croeshoelio, y bedd a'r garreg wrth ei drws, dagrau Mair, a Mair ac Iesu yn yr ardd. Ar goeden yr Atgyfodiad yr oedd gwahoddiad i bawb ychwanegu neges. Ac wrth adael y capel drwy'r cyntedd, plethwyd ynghyd stori'r Geni a stori'r Pasg gan fod y ddwy ŵyl yn annatod glwm yn ei gilydd.

Paratowyd darlleniadau dwyieithog i dywys yr ymwelwyr drwy'r capel. Barn nifer oedd fod yr ŵyl nid yn unig yn wledd i'r llygaid ond hefyd yn tynnu ar dannau'r galon.

Gyda phaned a chyfle i gymdeithasu, daeth llif cyson o ymwelwyr drwy ddrysau Capel Bancyfelin yn ystod y prynhawn. Diolch i Nia Ward am y weledigaeth ac i bawb a fu'n cynorthwyo. Roedd hwn yn brofiad newydd i ni fel eglwys, un a ychwanegodd yn fawr at ddathliadau penwythnos y Pasg yn yr ofalaeth. Pleser yw gweld yr aelodau'n sianelu eu doniau creadigol i gyfeiriad yr eglwys. Hir y parhao.

*Beti-Wyn James*
*Gweinidog*

# Gwasanaeth bore'r Pasg yn Llannefydd



Plant ac ieuenctid Capel Llannefydd fu'n cymryd rhan yn y gwasanaeth teuluol fore Sul y Pasg, yng nghwmni Susan Williams, y Ceunant, a gyflwynodd yr anerchiad




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

# Tafod Arian – Lleuwen Steffan

Yn dilyn ei thaith, ‘Emynau Coll y Werin’, y llynedd pan gyflwynodd nifer o emynau anghofiedig mewn capeli ledled Cymru, cafodd Lleuwen Steffan ei hysbrydoli i ychwanegu caneuon a cherddoriaeth wreiddiol, newydd at y gwaith. Y canlyniad yw ei bod wedi creu cynhyrchiad amlhaenog sy’n cyfuno ffilm, band a rhaglen o gerddoriaeth mewn cynhyrchiad newydd swmpus.

Yn ymuno â Lleuwen bydd y cerddor amryddawn Gethin Elis, sy’n chwarae nifer o offerynnau cerdd, yn ogystal â’r gantores ddihafal o Lydaw, Nolwenn Korbell. Yn ystod y perfformiad bydd ffilm newydd gan Aled Victor yn cael ei dangos, yn cynnwys delweddau o’r archif a roddwyd i Lleuwen, gan aelodau o’r cyhoedd yn bennaf, yn ystod ei thaith o amgylch y capeli. Bydd ei chaneuon gwreiddiol sy’n ymdrin â’i thaith ffydd yn cael eu perfformio am y tro cyntaf, a’r cynhyrchiad hwn yn rhoi bywyd newydd i emynau llafar gwlad a gafodd eu hanwylo gan y genedl.

Gallwch archebu tocynnau ar: Lleuwen.net/tafod-arian

I gael blas o’i gwaith, ewch i https://www.youtube.com/watch?v=PFAPrk1FxqM

(Dylid nodi mai fersiwn byr o’r cynhyrchiad fydd yn cael ei berfformio yn Tafwyl, a hynny heb y ffilm)






**Podlediad y Pasg: Lleuwen Steffan a Nan Powell-Davies**

Yn rhifyn y Pasg o’r podlediad Presbyteraidd cawn glywed gan y gantores a’r gyfansoddwraig Lleuwen Steffan. Mae Lleuwen yn sôn am ei gwaith, ei hysbrydoliaeth a’i hymweliad diweddar â Mizoram yng Ngogledd-ddwyrain India. Mae’r cyfweliad hwn yn uniaith Gymraeg.

Yna, yn dilyn hynny, ceir epilog dwyieithog gan y Parchedig Nan Powell-Davies, Ysgrifennydd Cyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru, sydd newydd gwblhau’r marathon She Ultra ym Mhen Llŷn. Rhedodd Nan y ras galed hon, 50 cilometr o hyd, mewn ychydig dros 11 awr i godi arian er budd Apêl Manipur EBC: https://www.ebcpcw.cymru/cy/manipurappeal/

I wrando ar y podlediad, ewch i: https://rss.com/podcasts/podlediad-presbyteraidd-presbyterian-podcast/1991204/

# Parti Pasg ym Mlaenau Ffestiniog





Rydym yn ddiolchgar am weddïau pawb drosom ar gyfer y Pasg yn y Blaenau. Ddydd Gwener y Groglith, fe gawsom wasanaeth cymun yn y ganolfan hamdden, a'n harwain at y bwrdd gan y Parch. Bryn Williams, sy'n weinidog yn yr henaduriaeth, gyda gwahoddiad i bawb o eglwysi'r dref ddod draw atom.

Ar fore Sul y Pasg fe wnaethon ni gynnal gwasanaeth teuluol mewn pabell fawr ar gae'r clwb rygbi cyn mynd ati wedyn i fendithio a gwasanaethu dros 500 o'r gymuned yn ein Parti Pasg! Roedd o'n ddiwrnod llawn llawenydd – o'r awyr las (byth i'w gymryd yn ganiataol yn y Blaenau!!) i'r nifer fawr o wynebau ifanc yn gwenu!

Roeddem yn ddiolchgar am y cyfle i dystio pam ein bod yn cynnal dydd hwyl fel yma: nad oes yna ddim rheswm mwy i ddathlu na'r atgyfodiad!

Wnewch chi weddïo efo ni y bydd llawer yn dod i brofi llawnder llawenydd y Pasg yn yr ardal?

*Joseff Edwards*
*Gweithiwr Cenhadol, Blaenau Ffestiniog*











## HYFFORDDIANT EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU

### Cwrs Hyfforddiant i Flaenoriaid ar gyfer Gweinyddu'r Sacramentau

Mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru (EBC) yn annog blaenoriaid i ystyried hyfforddi ar gyfer gweinyddu'r sacramentau. Golyga hyn y gallwch weinyddu'r cymun yn eich eglwys eich hun, neu mewn eglwys arall sydd efallai heb weinidog. Gallwch hefyd weinyddu'r cymun i rai sy'n gaeth yn eu cartrefi, neu i unigolion mewn cartref preswyl neu ysbyty. Efallai eich bod eisoes yn cynorthwyo'r eglwys yn lleol drwy arwain addoliad a chymryd ambell wasanaeth. Os felly, byddai medru cynnig oedfa gymun yn ffordd arall i chi wasanaethu'r gynulleidfa.

Rhaid i flaenor gael ei ch/gymeradwyo gan ei henaduriaeth fel person sy'n derbyn cefnogaeth yr henaduriaeth i weinyddu'r cymun. Ar ôl cwblhau'r cwrs, bydd angen i'r blaenor gael ei g/chomisiynu gan yr henaduriaeth i weinyddu sacramentau'r cymun a'r bedydd. Mae croeso, wrth gwrs, i aelodau nad ydynt yn flaenoriaid i fynychu'r cwrs o ran diddordeb.

Cynigir y cwrs yn Gymraeg ac yn Saesneg dan arweiniad gweinidog. Tiwtor y cwrs yw'r Parchedig Eifion Roberts, Capel y Morfa ac Eglwys Dewi Sant, Aberystwyth. Cynhelir chwe sesiwn drwy gyfrwng Zoom – dyma amserlen y cwrs nesaf:

Cymraeg: nos Iau, 7–9 o'r gloch – 8 Mai tan 12 Mehefin

Saesneg: nos Iau, 7–9 o'r gloch – 19 Mehefin tan 24 Gorffennaf.

Bydd peth gwaith ysgrifenedig i'w gwblhau, megis paratoi gwasanaeth ar gyfer achlysur penodol. Bydd y gwaith wedyn gan yr ymgeiswyr i'w ddefnyddio yn eu heglwysi.

Cysylltwch â'r Cydlynydd Hyfforddiant trwy e-bost, os gwelwch yn dda, am fwy o wybodaeth ac i gofrestru ar gyfer y cwrs.

*Rhys Bebb Jones, Cydlynydd Hyfforddiant EBC,*
*rhys.jones@ebcpcw.cymru*

S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 4 Mai**

Bydd Nia Roberts yn Aberhonddu i ddysgu mwy am etifeddiaeth grefyddol gyfoethog y fro. Cawn ymweld â Chadeirlan Anglicanaidd y dref, a chawn glywed hanes hen gapel Cymraeg y Plough, a adeiladwyd bron i ddwy ganrif yn ôl. A chawn wledd o ganu mawl o bob cwr o Gymru.

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 4 Mai, am 7:30yb a 4:30yp**


Eich dewis chi o emynau yng nghwmni Arfon Haines Davies

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 4 Mai, am 12:00yp**

Oedfa dan ofal Ariadne der Hof, Llundain

# Llyfr y Pregethwr

**Yn ystod y tymor hwn byddwn yn astudio Llyfr y Pregethwr gyda'n gilydd dan arweiniad y Parch. Ddr Alun Tudur, gan ddefnyddio cyfrol y diweddar Gareth Lloyd Jones, *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr* yn ganllaw.**




**Astudiaeth 10: Gwleidyddiaeth**

**Llyfr y Pregethwr** 4:13–16

**Bachgen a brenin**

Yma, mae'r awdur yn troi ei feddwl at wleidyddiaeth, gan adrodd stori sy'n dweud pam mae'n credu bod llanc ifanc tlawd a doeth wrth y llyw yn rhagori ar frenin hen a ffôl (4:13–16).

'Yr hen a ŵyr a'r ifanc a dybia', medd yr hen air. 'Na', meddai'r Pregethwr. Yn ei farn ef, nid yw statws ac oedran ohonynt eu hunain yn golygu fod neb yn ddoeth. Mae awdur Llyfr Job yn cytuno ag ef yn hyn o beth. Wedi gwrando ar dri o gyfeillion Job yn ceisio'i ddarbwyllo i gydnabod ei bechod ac edifarhau, mae Elihu, er ei fod yn iau o lawer na'i gyfoedion, yn eu beirniadu'n llym am dybio bod yr ateb cywir i bopeth ganddynt: 'Nid yr oedrannus yn unig sydd ddoeth, ac nid yr hen yn unig sy'n deall beth sydd iawn' (Job 32:9).

Dywed Iesu rywbeth tebyg wrth gyfiawnhau anwybyddu 'traddodiad yr hynafiaid', sef dysgeidiaeth y Phariseaid. Bron yn ddieithriad, cyfeiria'r efengylwyr at yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid fel awdurdodau crefyddol cydnabyddedig y cyfnod, ac nid fel carfan ddibwys o eithafwyr rhagrithiol sydd ar yr ymylon. Ond er iddo gydnabod eu bod 'yn eistedd yng nghadair Moses' (Mathew 23:2) ac felly'n haeddu parch, roedd Iesu'n anghytuno â hwy ynghylch rhai materion llosg, yn cynnwys deddfau defodol manwl megis cadwraeth y Saboth, golchi dwylo a bwydydd arbennig. Mae'n eu cyhuddo o ragrith am 'ddirmygu gair Duw' er mwyn eu traddodiad (Mathew 15:1–9), ac yn eu barnu am fod eu dehongliad o'r Gyfraith yn rhoi 'beichiau trymion ac anodd eu dwyn' ar ysgwyddau pobl (Mathew 23:4). Dylent wybod yn well.

Er mwyn dangos nad monopoli'r henoed a'r grymus a'r goludog yw doethineb, mae'r Pregethwr yn cymharu cymwysterau bachgen ifanc tlawd, ond doeth, i fod yn arweinydd â chyflawniadau brenin goludog, oedrannus a ffôl. Ffolineb y brenin yw ei fod yn gwrthod gwrando ar gyngor. Yn ei sefyllfa fregus, gallai 'un ddod allan o garchar' hyd yn oed a chipio'r orsedd oddi arno (Pregethwr 4:13–14). Mae parodrwydd i wrando ar eraill yn un o nodweddion doethineb; ac yn ôl Llyfr y Diarhebion y mae'n sicrhau llwyddiant hefyd: 'Drysir cynlluniau pan nad oes ymgynghori, ond daw llwyddiant pan geir llawer o gynghorwyr' (Diarhebion 15:22).

Ar ddechrau ei deyrnasiad, er ei fod yn dlawd a dibrofiad, mae'r gefnogaeth a gaiff y bachgen gan bawb 'oedd yn byw ac yn rhodio dan yr haul' (Pregethwr 4:15), yn gwireddu'r ddihareb: 'Yn amlder pobl y mae anrhydedd brenin; ond heb bobl, dinistrir llywodraethwr' (Diarhebion 14:28). Ond daw agwedd besimistaidd yr awdur i'r brig unwaith eto. Er gwaethaf y fath gefnogaeth ysgubol, mae'r brenin newydd yn dioddef tynged yr hen frenin ac yn colli cefnogaeth: nid o angenrheidrwydd o achos ei ffaeleddau ond am fod ei ddeiliaid wedi blino arno ac yn dymuno newid. Nid yw'r clod a'r parch a'r bri sy'n seiliedig ar gymeradwyaeth boblogaidd yn para'n hir. Byrhoedlog fydd y llwyddiant cynnar; mae unrhyw obaith o barhau 'yn wagedd ac yn ymlid gwynt' (Pregethwr 4:16). Nid oes y fath beth â sefydlogrwydd mewn gwleidyddiaeth.

Daw tair enghraifft Feiblaidd i'r cof o'r hyn sydd gan y Pregethwr dan sylw. Roedd Solomon yn enwog am ei ddoethineb, ond cafodd ei farnu yn ei henaint am iddo fod yn anffyddlon i'r cyfamod a wnaed ar Sinai drwy osod llafur gorfod ar y bobl a dilyn duwiau estron (gw. 1 Brenhinoedd 9:20–21;11:1–13). Yn fuan wedi iddo farw, aeth y frenhiniaeth ar chwâl am fod ei fab Rehoboam wedi gwrthod â gwrando ar yr henuriaid yn ei lys a erfyniai arno i 'ysgafnhau peth ar gaethiwed caled' ei dad a'r 'iau drom a osododd' arnynt' (1 Brenhinoedd 12:4). Mae'r cyfeiriad at garcharor sy'n mynd o garpiau i gyfoeth yn ein hatgoffa am Joseff yn cael ei ryddhau o'i gadwyni: yn ddyn ifanc, cafodd ei benodi'n rheolwr yr Aifft am iddo brofi ei ddoethineb i Pharo (gw. Genesis 37–41).

Ond, boed y Pregethwr yn meddwl am gymeriadau arbennig ai peidio wrth ddweud y stori am y bachgen a'r brenin, mae ei sylwadau'n berthnasol iawn ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain. Rydym yn byw mewn byd y mae arweinwyr oedrannus, ynfyd a pheryglus yn gwneud bywyd yn faich i'w deiliaid ynddo. Mae arweinyddiaeth llawer gwlad yn nwylo cadfridogion creulon, arlywyddion diegwyddor ac eithafwyr crefyddol digyfaddawd, a'r mwyafrif ohonynt wedi cyrraedd oed yr addewid. Un nodwedd sy'n gyffredin i bob un ohonynt yw'r defnydd a wnânt o rym i ffrwyno unrhyw wrthsafiad i'w hawdurdod. Mygir pob protest â dwrn dur. Y camddefnydd o rym gwleidyddol sydd wrth wraidd y protestiadau a'r gwrthryfel sy'n arwain at argyfwng mewn llawer gwlad.

Mae'r bwlch oedran rhwng llywodraeth sy'n heneiddio a phoblogaeth ifanc yn gwneud deialog yn anodd ac yn creu tensiwn rhwng gofynion y naill a gobeithion y llall. Llugoer yw ymateb sawl gwlad i alwad y to ifanc am fyd mwy diogel ar eu cyfer hwy a'u plant drwy roi'r sylw dyladwy i'r amgylchedd cyn ei bod yn rhy hwyr. Yn y gyflafan fwyaf yn Ewrop ers yr Ail Ryfel Byd, anfonwyd nifer fawr o fechgyn ifanc Rwsia, yn groes i'w hewyllys, i ymladd yn erbyn eu cymdogion yn Wcráin, gyda'r gorchymyn i ladd pawb yn ddiwahân. Nid oedd dewis ond mynd, er eu bod yn brin o'r cyfarpar angenrheidiol a heb gael fawr o hyfforddiant. Yn Iran, mentrodd merched ysgol anufuddhau i orchmynion yr awdurdodau ynglŷn â beth i'w wisgo a beth i'w wneud. Fel y gellid disgwyl, yn lle gwrando a thrafod, ymateb yr henuriaid sy'n rhedeg y wlad yn enw Duw oedd curo, poenydio a charcharu'r protestwyr, a hyd yn oed saethu nifer yn farw.

Yn ôl un cyfrif, mae ymron ddau biliwn o bobl ifanc rhwng 10 a 22 oed yn y byd. Os yw dynoliaeth am oroesi, mae deialog rhwng y cenedlaethau'n hanfodol. Mae gan lawer o'n hieuenctid rywbeth o bwys i'w ddweud am y ffordd y dylid rhedeg y byd. Nid oes gan yr henoed fonopoli ar ddoethineb. Barn y Pregethwr yw mai gwell yw cael ein harwain gan rywun ifanc a doeth na chan deyrn hen a ffôl sy'n gwrthod derbyn cyngor ei lys ei hun.

**Be' dych chi'n feddwl?**

1. Yn wyneb ymchwil ddiweddar sy'n dweud bod mwy o ddiddordeb gan bobl ifanc yn yr eglwys nag o'r blaen, beth feddyliwch y gallem fod yn ei wneud er mwyn eu croesawu i'n heglwysi Cymraeg?
2. A ddylid rhoi mwy o le i lais yr ifanc mewn trafodaethau ynghylch materion cymdeithasol a dyfodol y blaned?

# Y Pasg ym Mhontrhydfendigaid

Mae plant yr ysgol Sul a'r ieuenctid yn Rhydfendigaid wedi bod yn brysur iawn yn ddiweddar. Fe fuon nhw'n ymweld â Chartref Bryntirion, Tregaron, i ddiddanu ac yn cymryd rhan yn yr orymdaith i Ystrad-fflur ar Sul y Palmwydd, gan ganu yng nghapel Carmel ac yn eglwys y Santes Fair. Y nhw oedd yn gyfrifol am y gwasanaeth cyfan yn Sul yr Ofalaeth yn Rhydfendigaid ar fore Sul y Pasg, ac fe wnaethon nhw hefyd gymryd rhan yn y Gymanfa Ganu yng Nghapel Bwlchgwynt, Tregaron.

*Neli Jones*




Yr orymdaith i Ystrad-fflur ar Sul y Palmwydd



Parti canu yn Eglwys y Santes Fair



Gwasanaeth y Pasg yn Rhydfendigaid

## Dathlu'r Pasg yng Ngofalaeth y Gwendraeth



Cofio wrth y groes ym mhentref Llanddarog



Swper, Oedfa a Chymun yn Neuadd Llanddarog



Bu wythnos y Pasg yn amser prysur yng Ngofalaeth y Gwendraeth. Cafwyd Swper, Oedfa a Chymun nos Iau Cablyd yn neuadd Llanarthne, gyda dros 50 yn dod at ei gilydd i gofio'r pryd yn yr oruwchystafell, a myfyrio ar Iesu'r gwas yn golchi traed.

Brynhawn Gwener y Groglith, daeth yr ofalaeth at ei gilydd eto i gofio'r dioddef a'r boen ar fryn Calfaria.

Ac yna brynhawn Sul y Pasg, cafwyd gorymdaith yn cario'r groes drwy bentref Llanddarog, darlleniadau ac emynau i'n hatgoffa ni o'r digwyddiadau, o'r ardd nos Iau tan y claddu, ac yna i mewn i'r capel i ddathlu Sul y Pasg a chymun gyda'n gilydd.

*Emyr Williams*

# Dyddiau Donald Trump yn gwenwyno'r byd cyfan

Nid yw'n hawdd i neb o bobl y byd ddygymod â chlebran ffôl a gweithredoedd anghyfrifol Donald Trump ers iddo gael ei urddo'n Arlywydd yr Unol Daleithiau ar 20 Ionawr 2025. Roedd y seremoni'n embaras i bob democrat, a'i anerchiad yn bychanu'r cyn-Arlywyddion oedd wedi dod ynghyd i'w gefnogi. Roedd hi'n anodd dygymod â'i feirniadaeth pe baech chi'n weriniaethwr fel George Bush. Ond nid oedd yr Arlywydd newydd yn ddigon o ŵr bonheddig o leiaf i gydnabod bod yr Arlywydd Joe Biden, o dan amodau digon anodd, wedi cwblhau ei gyfnod o bedair blynedd fel arweinydd pwysicaf y byd.

Roedd rhai ohonom yn gobeithio y byddai Trump yn rhoi blaenoriaeth i setlo cwerylon sy'n creu diflastod yn Gaza ac Wcráin. Ond yn lle hynny, aeth ati i fygwth meddiannu gwledydd nad oes ganddo hawl arnynt o gwbl, ond bod yn ei feddiant rym milwrol na all neb arall gystadlu ag ef. Anodd oedd ei glywed yn bygwth cymryd meddiant o gamlas Panama am fod China yn ei defnyddio mor aml ac America oedd yn berchen y cyfan ar ddechrau'r ugeinfed ganrif.

Yna, trodd ei olygon at Greenland, yr Ynys Las, sy'n rhan o frenhiniaeth llywodraeth Denmarc. Ond o leiaf, rhoddir i bobl yr Ynys Las ryddid i gynnal etholiadau a gweithredu democratiaeth drwy'r Senedd. Dadl Trump a'r Dirprwy Arlywydd, J. D. Vance, oedd yn barod ddiwedd Mawrth 2025 i deithio i'r wlad oer aeafol i feirniadu, nad yw Denmarc wedi bod yn ofalus o'r ynys.

Bwli yw Donald Trump ac un sydd am feddiannu'r ynys fel y gall osod ei arfau a'i awyrennau yno er mwyn cadw llygad ar ymerodraethau Rwsia a China. Ac eto, nid oes neb wedi rhoi mwy o hyder i Vladimir Putin yn ei frwydr ag Wcráin na'r Arlywydd Trump. Da clywed gwleidyddion a phobl gyffredin yr Ynys Las yn dweud yn gadarn nad ydynt o blaid y syniad. Byddai gadael i America gymryd drosodd yn peryglu diwylliant ac iaith y wlad sy'n fawr o ran maint, ond yn fychan o ran nifer y trigolion. Dim ond 57,000 sy'n byw yno.

Gwyddom fod Trump, fel Putin, am reoli'r byd cyfan, ond un peth da yw na all Trump lywodraethu am fwy na phedair blynedd. Mae hyn wahanol iawn i sefyllfa Putin, sy'n awyddus i lywodraethu tra bydd ef â gofal y Kremlin a'r Fyddin Goch. Mae'r ddau'n chwarae gêm. Gŵyr Putin fod gan Trump uchelgais o fod yn adnabyddus fel un a fu'n gyfrwng cytundeb unochrog ar heddwch i Wcráin. Ar ôl Wcráin, mae ganddo lond gwlad o waith i'w gyflawni i ddod â llywodraeth greulon Benjamin Netanyahu i gymrodeddu a rhoi i drigolion Gaza ychydig gysur yng nghanol galar diddiwedd y werin bobl dlawd eu byd.

Gofidiwn fod yna alwad ar draws gwledydd yr Undeb Ewropeaidd i ailarfogi. Mae'r Undeb Ewropeaidd ei hun wedi cyhoeddi gwariant o 680 biliwn ewros ar hyn. Ethol Donald Trump sydd y tu ôl i'r gwallgofrwydd gwastraffus hwn, a hynny ar wledydd na all fforddio gwario cymaint o arian ar brynu arfau. Dadleuodd nifer o wleidyddion y dylem ni fuddsoddi mewn dyfodol heddychlon yn hytrach nag mewn economi a swyddi sy'n seiliedig ar ryfel a lladd milwyr a gwerin gwlad. Fel y soniodd radicaliaid Cymreig o ddyddiau Gwilym Hiraethog ac 'SR' Llanbryn-mair, mae'r cyfoeth a werir ar filitariaeth bob amser wedi bod ar draul y tlotaf yn ein cymunedau trefol a chefn gwlad. Dadleuaf na fydd cael rhagor o bobl i wirfoddoli'n filwyr a phrynu taflegrau o ffatrïoedd yr Unol Daleithiau yn dod â heddwch i Wcráin nac yn wir i gyfandir Ewrop. Yr unig ffordd o sicrhau byd llai peryglus yw cael gwared ar unwaith ag arfau niwclear a'u cost aruthrol.

Un peth yr wyf yn falch ohono yw'r rhan flaengar a chadarnhaol yn hyrwyddo heddwch a chwaraewyd gan Gymry dewr, fel George M. Ll. Davies, Tudor Watkins, D. R. Thomas, ac yn gyfoes gan Guto ap Gwynfor, Ffred Ffransis a Mererid Hopwood, Jill Evans a Dr Robin Gwyndaf, pob un yn hyrwyddo Academi Heddwch Cymru. Hwy sy'n gofalu am eu bod am weld Cymru'n genedl heddwch, a da gweld yn *Y Faner Newydd* a *Barn* fod yna gefnogaeth i'r syniadau a drafodir yn yr erthygl hon. Fel cenedl, mae gennym draddodiad heddwch y medrwn ymfalchïo ynddo, a merched a dynion o bob oedran sydd wedi cynnal mentrau heddwch arloesol a sefydlu cymdeithasau fel Cymdeithas y Cymod, CND, Pwyllgor Cant Bertrand Russell, a chyfrolau a gyhoeddwyd ar dystiolaeth yr heddychwyr.

Trist yw gweld yr oes hon yn caniatáu i'r Almaen, o bawb, arwain (a chofio'r Ail Ryfel Byd). Mae'r Canghellor Olaf Scholz eisoes wedi annog yr Undeb Ewropeaidd i wario 800 biliwn i arfogi'r gwledydd yn barod ar gyfer Rhyfel Byd arall. Golygfa na fyddwn i ddim yn gyfforddus â hi fyddai gweld pobl ifainc Ewrop (ein hwyrion a'n hwyresau) yn colli eu bywydau'n amddiffyn eu gwledydd rhag lluoedd Rwsia. Ond yn y dyddiau hyn yn 2025, dyna, yn ofidus, y mae arweinwyr milwrol yn ei ystyried o ddifrif.

Wrth i Wcráin ddioddef yn feunyddiol a cheisio'i gorau glas i fodloni Trump i gael heddwch parhaol, rhaid cofio bod ein dyfodol ni ym Mhrydain yn y fantol gan fod Rwsia'n ymyrryd yn gyson yn Llundain ac mewn dinasoedd eraill lle ceir Rwsiaid ar ffo. Yn ôl rhai sylwebyddion, mae'r Almaen yn fodlon arwain y gad yn Ewrop. Deallant y realiti newydd, fel y gwna eraill o'r arweinwyr sydd gennym, dim un ohonynt yn meddu ar awdurdod Trump.

*D. Ben Rees*
*Lerpwl*

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru